Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu | Dyddiad: | 20 Ionawr 2017 |
| | | Rhif Union: | 01824 712568 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD LLUN, 30 IONAWR 2017** am **10.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, Y RHYL**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 PENODI CADEIRYDD**

Penodi Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**CAIS ER YSTYRIAETH -**

**3 DEDDF TRWYDDEDU 2003:–YUMMY PERI PERI CHICKEN, 36 FFORDD WELLINGTON, Y RHYL** (Tudalennau 7 - 22)

Ystyried cais am Drwydded Eiddo newydd, a gyflwynwyd yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (amlinelliad o'r cais a phapurau cysylltiedig ynghlwm).

Nodwch y drefn i'w chymryd gan yr Is-Bwyllgor (sydd ynghlwm wrth y rhaglen hon).

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Bill Cowie
Barry Mellor
Cefyn Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

## Y DREFN AR GYFER CEISIADAU A WNEIR DAN Y DDEDDF TRWYDDEDU 2003

| Cam | Disgrifiad |
|---|---|
| 1. | Mae Cadeirydd yr Is-Bwyllgor Trwyddedu yn agor y Gwrandawiad ac yn croesawu pawb sy'n bresennol. Mae'n cyflwyno'r Cydweithwyr ar yr Is-Bwyllgor a'r Swyddogion sy'n Bresennol. |
| 2. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd y Swyddog Trwyddedu i gyflwyno'r Cais. |
| 3. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu'r Cynrychiolydd Penodedig) i gyflwyno'r Cais. |
| 4. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd unrhyw Awdurdodau Cyfrifol (e.e. Heddlu, Gwasanaeth Tân) i gyflwyno eu sylwadau. |
| 5. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd neu'r Awdurdodau Cyfrifol. |
| 6. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd y Rhai â Diddordeb i gyflwyno eu sylwadau. |
| 7. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu i ofyn cwestiynau i'r Rhai â Diddordeb ac i egluro unrhyw bwyntiau gyda'r Ymgeisydd. |
| 8. | Mae'r Cadeirydd yn gwahodd yr Ymgeisydd (neu'r Cynrychiolydd Penodedig) i wneud datganiad terfynol. |
| 9. | Bydd Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn ymneilltuo i ystyried eu penderfyniad, gyda'r Clerc i'r Gwrandawiad a'r Ymgynghorydd Cyfreithiol i'w canlyn. |
| 10. | Mae Aelodau'r Is-Bwyllgor Trwyddedu yn dychwelyd gyda'u penderfyniad ar y Cais, gyda rhesymau i'w gefnogi. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## LICENSING SUB COMMITTEE

## PROCEDURE FOR APPLICATIONS MADE UNDER THE LICENSING ACT 2003

| Step | Description |
|---|---|
| 1. | Chair of the Licensing Sub Committee, opens the Hearing and welcomes everyone present. Introduces Colleagues on Sub Committee and Officers Present. |
| 2. | Chair invites Licensing Officer to introduce the Application . |
| 3. | Chair invites the Applicant (or the Appointed Representative) to present the Application. |
| 4. | Chair invites any Responsible Authorities (E.g. Police, Fire Service) to present their representations. |
| 5. | Chair invites Members of the Licensing Sub Committee to ask questions of the Applicant or the Responsible Authorities. |
| 6. | Chair invites Interested Parties to present their representations. |
| 7. | Chair invites Members of the Licensing Sub Committee to ask questions of the Interested Parties and to clarify any points with the Applicant. |
| 8. | Chair invites the Applicant (or Appointed Representative) to make a final statement. |
| 9. | Licensing Sub Committee Members will adjourn to consider their decision, accompanied by the Clerk to the Hearing and the Legal Advisor. |
| 10. | Licensing Sub Committee members return with their decision on the Application, supported by reasons. |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Is-bwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 30 Ionawr 2017 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) 01824 706451 trwyddedu@sirddinbych.gov.uk |
| **PWNC:** | **Deddf Drwyddedu 2003**<br>**Cais am Drwydded Eiddo**<br>**Yummy Peri Peri Chicken**<br>**36 Ffordd Wellington, Y Rhyl**<br>**LL18 1BN** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn cais am Drwydded Eiddo newydd a gyflwynwyd yn unol ag Adran 17 Deddf Trwyddedu 2003 mewn perthynas â Yummy Peri Peri Chicken, 36 Ffordd Wellington, Y Rhyl. O ganlyniad i'r ymgynghori angenrheidiol a'r Rhybudd Cyhoeddus gofynnol, mae'r Awdurdod Trwyddedu wedi cael sylwadau perthnasol sy'n gwrthwynebu'r cais. Mae angen i'r Is-bwyllgor wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais, gan ystyried yr holl ffeithiau/tystiolaeth berthnasol.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae hwn yn gais am Drwydded Eiddo newydd. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn ymwneud ag Atal Niwsans Cyhoeddus.

2.2 Atgoffir yr Aelodau bod yn rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir fod yn unol â (i) Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor a (ii) Chanllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

2.3 Gan weithredu yn rhinwedd Awdurdod Trwyddedu, rhaid i Aelodau geisio hybu'r Amcanion Trwyddedu, ac os yw Aelodau'n ystyried bod materion yn gysylltiedig ag un neu fwy o amcanion, gallant arfer eu disgresiwn.

2.4 Atgoffir Aelodau'r Is-bwyllgor Trwyddedu na allant arfer eu disgresiwn mewn unrhyw achos, am eu bod yn ystyried bod hynny'n ddymunol, a dylid rhoi rheswm (rhesymau) dros unrhyw benderfyniad a wneir, neu os

penderfynir gwyro mewn unrhyw ffordd o’r Protocol, y Polisi neu’r Canllawiau.

## 3. ARGYMHELLION

### 3.1 Penderfyniad yr Is-Bwyllgor

Mae’n rhaid i’r Is-Bwyllgor, o ystyried y sylwadau a wneir, gymryd camau o’r fath (isod) maent yn eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer hyrwyddo’r amcanion trwyddedu:

Gall yr Is-bwyllgor:

- Ganiatáu’r Cais fel y gwnaethpwyd cais amdano
- Cyflwyno unrhyw amodau, i’r graddau y mae’r Awdurdod yn eu hystyried yn angenrheidiol i hyrwyddo’r amcanion trwyddedu
- Gwrthod y Cais

## 4.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

4.1 Ar 5 Rhagfyr 2016, cafodd yr Awdurdod Trwyddedu Gais llawn am Drwydded Eiddo newydd. Cyflwynwyd y Cais gan Mr Nallaiah Mahendramoorthy.

4.2 Siop Prydau Parod yw’r eiddo ac mae'r Cais yn berthnasol i ddarpariaeth bwyd poeth a diodydd wedi 23:00 yn unig (er gwybodaeth i Aelodau, mae darparu bwydydd poeth a diodydd ond yn weithgarwch trwyddedig os yw’n cael ei ddarparu rhwng 23:00 a 05:00).

4.3 Mae’r Ymgeisydd wedi gofyn am ganiatâd i ddarparu Lluniaeth Hwyr y Nos fel a ganlyn:

| GWEITHGAREDD TRWYDDEDADWY | DIWRNODAU PERTHNASOL | AMSER O | AMSER TAN |
|---|---|---|---|
| Lluniaeth Hwyr y Nos | Dydd Iau – Dydd Sul<br>Gwyliau Banc a Noswyl Nadolig | 23:00<br>23:00 | 03:00<br>03:00 |
| Oriau mae’r eiddo ar agor i’r cyhoedd | Dydd Iau – Dydd Sul<br>Gwyliau Banc a Noswyl Nadolig | 23:00<br>23:00 | 03:00<br>03:00 |

4.4 Deddf Trwyddedu 2003 – gwybodaeth/gofynion

Pan fydd cais yn cael ei gyflwyno am drwydded eiddo, mae'n rhaid rhoi copi llawn i'r Awdurdodau Cyfrifol, sef:

- Yr Heddlu
- Gwasanaeth Tân
- Cynllunio
- Safonau Masnach
- Iechyd yr Amgylchedd
- Iechyd a Diogelwch
- Gwasanaethau Plant
- Awdurdod Iechyd
- Awdurdod Trwyddedu

4.5 Hysbysiad Cyhoeddus

Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gynnwys hysbysiad mewn papur newydd lleol a rhoi hysbysiad ar yr adeilad neu wrth ei ymyl. Bydd hyn yn galluogi unigolion, corff neu fusnes i gyflwyno sylwadau perthnasol. Ond, bydd yn rhaid iddynt ddangos bod eu sylwadau yn ymwneud â hyrwyddo un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

4.6 Sylwadau Perthnasol

Derbyniwyd sylwadau a oedd, ym marn y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, yn berthnasol i'r cais o fewn y cyfnod statudol o 28 diwrnod:

4.6.1 Mae Swyddog Rheoli Llygredd y Cyngor wedi codi pryderon yn ymwneud ag agosrwydd yr eiddo i eiddo preswyl ac Amod Cynllunio presennol nad yw'n caniatáu defnyddio cyfarpar echdynnu ar ôl 23:00 (22:00 ar ddydd Sul). Mae wedi cynnig sawl amod yr hoffai, os caniateir y Drwydded, eu gweld yn cael eu cynnwys o fewn Atodlen Weithredu'r Safle. Gall yr Aelodau edrych ar y cynigion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

4.6.1.1 Mae manylion yr amodau arfaethedig wedi cael eu hanfon at yr Ymgeisydd ond pan luniwyd yr adroddiad hwn, nid oeddent wedi dod i gytundeb ffurfiol. Fodd bynnag, fel ymateb cyffredinol i'r sylwadau a dderbyniwyd, mae'r Ymgeisydd wedi cynnig gosod arwyddion ar yr eiddo sy'n gofyn i gwsmeriaid adael yn dawel er mwyn osgoi tarfu ar y preswylwyr.

4.6.2 Mae dau sylw ysgrifenedig wedi dod i law gan Bartïon sydd â Diddordeb mewn ymateb i'r hysbysiad cyhoeddus. Mae'r sylwadau'n ymwneud ag aflonyddwch posibl oherwydd sŵn, gellir gweld y manylion yn Atodiad B.

4.6.3 Drwy gydol y broses ymgeisio, mae'r Ymgeisydd wedi dangos ei barodrwydd i gyfryngu ag Awdurdodau Cyfrifol a Phartïon â Diddordeb, ac wedi iddo gael gwybod am y sylwadau a dderbyniwyd, cynigodd addasu'r cais i leihau nifer y dyddiau ac amseroedd agor hwyr y nos i **nos Wener a nos Sadwrn tan 01:00am yn unig.** Maent hefyd yn nodi bod sefydliadau hwyr nos eraill yn y cyffiniau sydd ar agor tan 2:00am, gan gynnwys tafarn drws nesaf sydd ar agor tan hanner nos.

4.6.4 Mae manylion am ymateb yr Ymgeisydd i'r sylwadau wedi'u hanfon at Bartion â Diddordeb; fodd bynnag, pan luniwyd yr adroddiad hwn, nid oedd unrhyw sylw wedi dod i law.

4.6.5 Mae'n bwysig bod Aelodau'n nodi, wrth awgrymu'r dewis o gyfryngu neu drafodaeth i bartïon ac ymgeiswyr â diddordeb, mae swyddogion yn ofalus i bwysleisio na ddylai aelodau'r cyhoedd deimlo bod rhaid iddynt gymryd rhan mewn cyfryngu. Hefyd, ni ddylai'r ymgeiswyr deimlo dan bwysau i dderbyn newidiadau i'w hatodlen weithredu os ydynt yn teimlo ei bod yn fwy priodol i'r Aelodau wneud penderfyniad ynglŷn â'r cais.

4.7 <u>Ystyriaethau Amcanion Trwyddedu / Canllawiau / Polisi</u>

Mae'r sylwadau perthnasol yn ymrwymo'r amcanion trwyddedu.

Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â'r cais hwn, at y Canllawiau a roddwyd dan Adran 182 Deddf Trwyddedu 2003:

- Atal Niwsans Cyhoeddus **Adran 2.18 i 2.24**

4.8 <u>Datganiad Polisi Trwyddedu</u>

Cyfeirir yr Is-bwyllgor, mewn perthynas â'r Cais, at Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor:

- Atal Niwsans Cyhoeddus **Adran 7**

4.9 Yn olaf, atgoffir yr aelodau hefyd bod rhaid iddynt ystyried y canlynol wrth wneud penderfyniad ynglŷn â'r Cais yn unol â'r Ddeddf Trwyddedu -

- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy'n rhoi dyletswydd arno i atal/lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal
- Rheolau cyfraith gyffredin o gyfiawnder naturiol
- Darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998

## 5.0 SYLWADAU'R SWYDDOGION

Mae Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi cyflwyno'r sylwadau canlynol i gynorthwyo Aelodau gyda'u hystyriaethau.

5.1 Mae'n rhaid i ymgeiswyr gyflwyno Atodlen Weithredu ar gyfer ymgeisio am Drwyddedau Eiddo newydd ac i amrywio Trwyddedau Eiddo. Mae'r Ymgeisydd wedi cynnig nifer o amodau a gellir gweld yr atodlen weithredu arfaethedig yn Atodiad C.

5.2 Mae'r Swyddogion Cynllunio wedi rhoi gwybod i'r Adran Drwyddedu, er nad oes unrhyw gyfyngiad ar oriau gweithredu cyffredinol y safle, mae amod cynllunio eisoes yn bodoli sy'n cyfyngu ar ddefnydd cyfarpar echdynnu rhwng 10:00 a 23:00 o ddydd Llun i ddydd Sadwrn a rhwng 10:00 a 22:00 ar ddydd Sul.

5.3 Mae'r Ymgeisydd yn ymwybodol o hyn ac wedi cymryd y camau priodol i wneud cais i newid yr amod hwn. Yn y cyfamser, mae Swyddogion Cynllunio yn argymell, os caniateir y Drwydded Safle, i Aelodau ystyried cyhoeddi'r nodyn cynghorol canlynol:

*"Mae'r Drwydded Eiddo hon yn ymwneud â materion sydd wedi'u cynnwys yn y rheoliadau trwyddedu dan Ddeddf Trwyddedu 2003 yn unig. Nid yw'n gwrth-wneud yr angen i gydymffurfio â deddfwriaeth ar wahân gan gynnwys gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer newid defnydd eiddo, ac nid yw'n gwrth-wneud unrhyw amod sydd wedi'i osod ar ganiatâd cynllunio presennol ar gyfer y defnydd, er enghraifft o ran oriau masnachu. Rydym felly'n eich cynghori'n daer i sicrhau bod yr eiddo'n gweithredu'n unol ag unrhyw ganiatâd cynllunio ac i sicrhau bod caniatâd hynny wedi'i osod cyn symud ymlaen."*

5.4 O ystyried y pryderon a godwyd gan breswylwyr a Rheoli Llygredd, bydd Aelodau'n dymuno gofyn cwestiynau perthnasol i'r Ymgeisydd (neu ei gynrychiolwyr) er mwyn sicrhau ei fod yn bwriadu defnyddio dulliau priodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Yn benodol, bydd yr Aelodau'n dymuno sefydlu bod gan yr Ymgeisydd ddealltwriaeth lawn o'r amodau y cytunwyd arnynt gyda Rheoli Llygredd a gofynion y ddeddfwriaeth gynllunio.

5.5 Atgoffir Aelodau mai dim ond Aelodau o Is-bwyllgor sy'n gallu atodi unrhyw newidiadau i'r cais gwreiddiol, h.y. amodau ychwanegol, wrth Drwydded Eiddo. Yr Aelodau sydd i ystyried hefyd a fernir unrhyw amod(au) yn angenrheidiol ac yn briodol.

## 6.0 CRYNODEB

6.1 Fe ddylai Aelodau ystyried y Canllawiau a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor yn ofalus, yn arbennig o ran y meysydd a amlygir yn yr adroddiad hwn. Atgoffir Aelodau mai ar sail tystiolaeth/rheswm da yn unig y dylid gwyro oddi wrth y Polisi.

6.2 Bydd gofyn i'r Aelodau benderfynu a yw’r sylwadau a gyflwynwyd yn berthnasol ac yn briodol i fodloni'r amcanion trwyddedu, a phe bai Aelodau o blaid caniatáu'r cais, maent yn ystyried ymgorffori Amodau Rheoli Llygredd o fewn Atodlen Weithredu’r eiddo.

6.3 Yn sgil y sylwadau sydd wedi dod i law gan Bartïon â Diddordeb, bydd yr Aelodau yn dymuno ystyried y cais hwn am Drwydded Eiddo yn ofalus.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag